Cymru Iach ar Waith

yn hyrwyddo lles yn y gweithle

Cylchlythyr 2 Tachwedd 2020

Croeso cynnes i'n cylchlythyr gan Dîm Cymru Iach ar Waith. Gobeithio bod y diweddariad hwn yn eich cyrraedd chi a'ch sefydliad yn ddiogel ac yn iach. Bob pythefnos, bydd y tîm yn dod â rhywfaint o'r newyddion iechyd yn y gweithle diweddaraf o bob rhan o Gymru i chi, gan gynnwys dolenni i ganllawiau COVID-19 yn y gweithle newydd neu wedi'u diweddaru.

Rydym wedi gohirio ein rhaglen wobrau o ganlyniad i'r pandemig, ond rydym yn parhau â'n rôl i hybu iechyd a llesiant. Mae croeso i chi rannu'r cylchlythyr hwn ar draws eich gweithlu a'ch rhwydweithiau.

Y CYNLLUN CADW SWYDDI DRWY GYFNOD Y CORONAFEIRWS A CHYMORTH ARIANNOL ARALL

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (a elwir hefyd yn gynllun ffyrlo), yn dod i ben ar 31 Hydref 2020. Unwaith y bydd y cynllun ffyrlo yn dod i ben, rhaid i gyflogwyr allu cynghori eu gweithwyr ar yr holl opsiynau sydd ar gael. Mae'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) wedi creu canllaw ôl-ffyrlo yn amlinellu'r amrywiol opsiynau, e.e. dychwelyd i'r gwaith yn llawn, adleoli, newidiadau i delerau cyflogaeth a diswyddo.

Ar 1 Tachwedd 2020, bydd y Cynllun Cefnogi Swyddi yn agor. I ddysgu rhagor am y cynllun hwn, mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r hyn a gwmpesir gan y grant, pa gyflogwyr a gweithwyr sy'n gymwys, a sut i'w hawlio.

Mae'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig presennol wedi'i ymestyn o 1 Tachwedd 2020 i ddechrau 2021. I wirio a ydych yn gymwys ac i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r Estyniad Grant yn ei gwmpasu, cliciwch yma.

Gall busnesau yng Nghymru dderbyn cymorth ariannol trwy'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) yn ystod y cyfnod atal byr. Bydd Grant Datblygu Cam 3 ERF ar agor ar gyfer ceisiadau o 26 Hydref ac fe fydd ar agor am bedair wythnos. Am ragor o wybodaeth ac i wirio'ch cymhwysedd, cliciwch yma.

ADRODDIAD: CYSYLLTIADAU RHWNG DIWEITHDRA OHERWYDD CORONAFEIRWS A SALWCH HIRSEFYDLOG

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n archwilio'r cynnydd amcangyfrifedig mewn cyfraddau diweithdra, ochr yn ochr â'r cynnydd tebygol yn nifer y bobl sy'n dioddef o afiechydon hirsefydlog.

Mae'r ffigurau, a ddefnyddir ar y cyd ag effeithiau'r pandemig Covid-19, yn dangos y gallai fod mwy o gynnydd yng nghanran yr oedolion sy'n byw gyda salwch hirsefydlog cyfyngol, o 18.1 y cant cyn y pandemig i 24.4 y cant yn ystod 2022/23.

Dywedodd Rajendra Kadel, Economegydd Iechyd y Cyhoedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a phrif awdur yr adroddiad: "Mae'n bosibl bod cwymp o un y cant mewn cyflogaeth ymysg pobl o oedran gweithio yn gysylltiedig â chynnydd o tua dau y cant mewn cyflyrau iechyd cronig. Gallai'r Coronafeirws olygu bod 900,000 yn fwy o bobl o oedran gweithio yn y DU yn datblygu cyflyrau iechyd cronig oherwydd llai o gyflogaeth".

GWYBODAETH COVID-19 I UNIGOLION A BUSNESAU YNG NGHYMRU

I gael arweiniad a gwybodaeth am y gweithle, gan gynnwys cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau, cliciwch yma. Mae'r tudalennau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn darparu dolenni i Fusnes Cymru, CThEM, cyngor iechyd y cyhoedd a chyngor sy'n benodol i ddiwydiant.

DYDDIADAU ALLWEDDOL

1–31 Tachwedd
Tashwedd

2–6 Tachwedd
Wythnos Ryngwladol Ymwybyddiaeth Straen

Drwy gydol mis Tachwedd a thu hwnt
Curwch Ffliw. Anogir grwpiau cymwys i fynychu eu gwahoddiadau i dderbyn y brechlyn ffliw blynyddol. I ddysgu rhagor am yr Ymgyrch Curwch Ffliw, cliciwch yma. Gellir dod o hyd i adnoddau ymgyrchu gan gynnwys posteri, taflenni a thempledi digidol yma.

CURWCH FFLIW
BEAT FLU

EDRYCH YMLAEN

16–22 Tachwedd
Wythnos Ymwybyddiaeth Alcohol. Ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael gwybodaeth am ganllawiau alcohol, adnoddau rhyngweithiol a dolenni i sefydliadau ategol.